

Arolygiad o Ddarparwr Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd) ReThink the Ink

Dyddiad arolygu: 11 Awst 2016

Dyddiad cyhoeddi: 14 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	8
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	11
6.	Y Camau Nesaf.....	13
	Atodiad A.....	14

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle y bo'n briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle y bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

²Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno mewn achos lle bo diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae ReThink the Ink wedi'i gofrestru'n ysbyty annibynnol gan ei fod yn darparu triniaethau gan ddefnyddio laser Dosbarth 3B/4 yn 9-15 New Road, Porthcawl. Cofrestrwyd y gwasanaeth ym mis Mawrth 2015.

Ar adeg yr arolygiad, y rheolwr cofrestredig oedd yr unig berson a oedd yn gweithredu'r laser. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 13 mlwydd oed:

Laser Nd:YAG 'Q-Switched' Q-Medicx ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu tatŵs
- Mannau geni
- Brychau.

Laser Nd:YAG 'Q-Switched' Star IPL ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu tatŵs
- Mannau geni
- Brychau.

4. Crynodeb

Gwnaethom adnabod rhai meysydd i'w gwella ac achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn. Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion
- Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar eu triniaeth a'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Canfuom fod angen y canlynol ar y gwasanaeth er mwyn gwella:

- Diweddariadau i'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Trefniadau ar gyfer diogelwch yr amgylchedd ac offer laser/golau pwls dwys
- Trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed
- Trefniadau ar gyfer rheoli risg ac iechyd a diogelwch, gan gynnwys rhagofalon tân
- Diweddariadau i bolisiâu a gweithdrefnau
- Systemau llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn gofynion y rheoliadau a'r safonau.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu'r gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfio â'r rheoliadau a safonau perthnasol. Mae hyn yn bwysig i sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

Er nad yw hyn wedi arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn. Gallai methu â gwneud hynny arwain o bosibl at weithredu ar ran AGIC oherwydd diffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)

Canfuom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Dywedwyd wrthym y cynhelir ymgynghoriad ar lafar gyda'r cleifion cyn triniaeth, sy'n cynnwys trafodaeth am y risgiau a'r manteision. Gofynnwyd i gleifion roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth, a gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a chanllawiau gofal dilynol a roddwyd i gleifion. Gwelsom dystiolaeth yn dangos y gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflenni hanes meddygol.

Cadwyd cofrestr o driniaethau yn ychwanegol at nodiadau cleifion unigol. Fodd bynnag, er mwyn darparu cofnod cynhwysfawr o bob triniaeth, mae angen mynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

- Enwau cyntaf cleifion yn unig a gofnodwyd ar y gofrestr triniaethau yn hytrach na'u henwau llawn neu rif unigryw i adnabod claf
- Roedd angen manylion pellach ynghylch pa ran o gorff y claf gafodd ei drin – er enghraifft, nodwyd 'braich' yn hytrach na 'rhan uchaf y fraich chwith'
- Nid oedd yr holl bamedrau laser perthnasol, megis tonfedd (nm), egni (J), amledd (Hz) a nifer yr ergydion wedi'u cofnodi
- Nid oedd lle i gofnodi unrhyw effeithiau niweidiol yn dilyn y driniaeth
- Roedd angen cynnwys rhagor o fanylion ynghylch triniaeth pob claf yn y nodiadau triniaeth unigol, megis pam y gwnaed newidiadau i driniaethau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid gwneud gwelliannau i'r gofrestr o driniaethau i sicrhau y cedwir cofnodion triniaethau cynhwysfawr.

Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)

Roedd dogfen canllaw i gleifion ar gael ond roedd angen ei diweddarau i gynnwys crynodeb o'r adborth diweddaraf gan gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.

Canfuom fod datganiad o ddiben ar gael, ond er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau, roedd angen ei ddiweddarau i gynnwys y canlynol:

- Cyfeiriad e-bost y rheolwr cofrestredig
- Y manylion diweddaraf ynghylch y mathau o laserau a ddefnyddir, gan gynnwys y gwneuthurwr a'r model fel y cyfeirir atynt yn y rheolau lleol
- Dylid cael gwared ar y cyfeiriad at ymweliadau i gartrefi cleifion, gan na chaiff hyn ei ddarparu gan y gwasanaeth
- Rhagor o fanylion ynghylch y trefniadau i hebryngwyr, gan gynnwys p'un ai all hebryngwyr fod yn bresennol yn ystod triniaeth
- Eglurhad ar sut yr eir ati i geisio adborth gan gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau.

Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddarau at AGIC.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r clinig ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd chwe holiadur cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Dangosai'r holiaduron a gwblhawyd fod yr holl gleifion yn cytuno'n gryf gyda datganiadau bod y clinig yn lân ac yn daclus, a bod y staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwrando, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd cleifion o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd yn 'ardderchog'.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gall cleifion roi adborth drwy dudalen Facebook y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd system wedi'i ffurfioli er mwyn casglu adborth cleifion fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, megis trwy gynnal holiaduron. Gwnaethom gynghori hefyd y dylai cleifion allu rhoi adborth yn ddienw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid gweithredu system i ofyn am adborth gan gleifion yn rheolaidd.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)

Gwelsom dystysgrifau'n dangos bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser, a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.³

Gwelsom fod rheolau lleol ar waith, a oedd yn dangos manylion ynglŷn â sut i ddefnyddio'r offer yn ddiogel. Roedd y rhain wedi cael eu llofnodi gan y rheolwr cofrestredig i ddynodi eu cefnogaeth iddynt. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ein hysbysu eu bod wedi gwerthu un o'r peiriannau laser yn ddiweddar. Golyga hyn fod angen adolygu'r rheolau lleol i adlewyrchu'r newid i'r offer.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid adolygu'r rheolau lleol i adlewyrchu'r newidiadau yn yr offer a ddefnyddir.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriant laser. Roedd yn ymddangos i'r cyfarpar hwn fod mewn cyflwr addas. Gwelsom dystiolaeth bod y cynghorydd diogelu rhag laserau wedi ystyried addasrwydd y cyfarpar diogelu llygaid.

Dywedwyd wrthym fod y peiriant laser a ddefnyddir ar hyn o bryd yn weddol newydd ac, o'r herwydd, nid oedd wedi'i wasanaethu. Gwnaethom drafod pwysigrwydd gwasanaethu a gwneud gwaith cynnal a chadw parhaus ar y peiriant gyda'r rheolwr cofrestredig. Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau ei fod mewn cyflwr diogel ac addas i'w ddefnyddio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod offer y peiriant laser yn ddiogel, wedi'u cadw mewn cyflwr da, ac y gellir eu gwasanaethu yn rheolaidd, fel y bo'r angen.

³Bwriedir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio systemau laserau a golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau golau pwls dwys a laserau'n ddiogel.

Roeddem yn pryderu nad oedd yr asesiad risg amgylcheddol ar gyfer yr ardal driniaethau/dan reolaeth yn ddigonol. Mae hyn oherwydd i ni ganfod, yn sgil y ffordd mae'r laser wedi'i leoli, nad yw llen y ffenestr o reidrwydd yn ddigonol i atal ymbelydredd laser crwydrol rhag dianc o'r ardal dan reolaeth, gan achosi niwed o bosibl i eraill y tu allan i'r ystafell. Ymhellach, er y gwelsom fod cytundeb â chynghorydd diogelu rhag laserau yn weithredol, nid oedd yn glir o'r dogfennau pryd oedd y tro diwethaf i'r unigolyn hwn ymweld â'r eiddo a ph'un a yw hyn wedi digwydd yn dilyn newidiadau i'r offer. Felly, nid oedd modd i ni ddweud i sicrwydd bod diogelwch yr amgylchedd wedi ei asesu'n ddigonol i sicrhau diogelwch a lles y cleifion a oedd yn derbyn triniaeth ac eraill.

Dywedwyd wrthym yn ystod yr arolygiad bod plant wedi'u derbyn i'r ardal dan reolaeth o bryd i'w gilydd, er mwyn bod gyda'u rhieni yn ystod eu triniaeth. Er bod cyfarpar diogelu llygaid wedi'u darparu iddynt, oherwydd y peryglon i'w diogelwch a'u lles, ni ddylid caniatáu i blant ddod i mewn i'r ardal dan reolaeth, oni bai eu bod yn derbyn triniaeth eu hunain.

Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig at y materion hyn, ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd a phresenoldeb plant, ar ddiwrnod yr arolygiad fel y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn ar unwaith a chyn i driniaethau pellach fynd rhagddynt. Gwnaethom hefyd gyflwyno llythyr yn dilyn yr arolygiad ac, o'r herwydd, roedd angen i'r gwasanaeth gymryd camau brys i fynd i'r afael â'n canfyddiadau. Gweler manylion pellach yn Atodiad A.

Gwelsom arwydd rhybudd y tu allan i'r ystafell driniaeth i ddynodi presenoldeb peiriant laser. Gwelsom olau rhybudd tu allan i'r ystafell driniaeth hefyd y gellid ei droi ymlaen pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod drysau'r ystafell driniaeth ar glo pan oedd yn cael ei defnyddio, er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer diogelu'r allweddi cychwyn ar gyfer y peiriannau, gan nad oedd y rhain wedi eu symud pan nad oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio, er mwyn atal pobl rhag ei ddefnyddio heb awdurdod.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gymryd camau i atal unrhyw un heb awdurdod rhag defnyddio'r peiriannau golau pwls dwys/laser, yn benodol drwy sicrhau bod yr allweddi cychwyn wedi'u storio'n ddiogel.

Diogelu plant ac oedolion agored i niwed (Safon 11)

Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau i blant sydd dros 13 mlwydd oed.

Canfuom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn amddiffyn cleifion yn ddigonol, gan gynnwys y gwelliannau canlynol:

- Nid oedd polisi amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed ar waith er mwyn sicrhau bod gweithdrefn glir i'w dilyn pe bai pryder yn ymwneud â diogelu
- Roedd angen gweithdrefnau clir er mwyn asesu gallu meddyliol i gydsynio i driniaeth
- Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu cyfredol
- Nid oedd gweithdrefnau clir o ran cydsynio a thrin plant ar waith, gan gynnwys diffyg trefniadau ar gyfer hebryngwyr a phresenoldeb rhiant/gwarcheidwad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i brosesau cadarn fod ar waith er mwyn diogelu plant ac oedolion agored i niwed a allai fod yn defnyddio'r gwasanaeth. Yn benodol, rhaid creu polisiâu a gweithdrefnau clir o ran diogelu, cydsynio a thrin plant adylid cynnal hyfforddiant diogelu.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, ond gwelsom fod angen ei ddiweddarau i gynnwys manylion pellach ynghylch y trefniadau ar gyfer glanhau yn y gwasanaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys mwy o fanylion am drefniadau glanhau.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gwnaethom edrych ar y trefniadau cynnal a chadw a oedd ar waith. Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod tystysgrif gwifrau bum mlynedd o hyd ar gael.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Dangosai'r labeli ar ddau o'r diffoddwyr tân nad oeddent wedi eu gwasanaethu ers nifer o flynyddoedd. Nid oedd asesiad risg tân wedi'i gynnal ac nid oedd arwyddion yn dangos ble'r oedd yr allanfeydd tân. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig geisio cyngor gan arbenigwr addas ar ddiogelwch tân ynglŷn â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl fesurau a rhagofalon priodol ar waith i amddiffyn iechyd a diogelwch cleifion yn y gwasanaeth hwn. Yn benodol, rhaid i ragofalon digonol fod ar waith rhag perygl tân, gan gynnwys asesiad risg cynhwysfawr o dân, offer diffodd tân addas ac arwyddion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)

Caiff ReThink the Ink ei redeg gan y rheolwr cofrestredig.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Yn sgil y gwelliannau angenrheidiol i bolisïau a nodwyd gennym, fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, gwnaethom argymhell cynnal adolygiad llawn o'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn ddigon manwl a'u bod yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid adolygu'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau a rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol a safonau.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Er bod manylion ynglŷn â sut mae'r gwasanaeth yn ymdrin â chwynion wedi'u cynnwys yn y canllaw i gleifion a datganiad o ddiben, nid oedd polisi cwynion mewn grym. Yn unol â'r rheoliadau, dylai copi ysgrifenedig o'r weithdrefn fod ar gael i gleifion ar gais.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid creu polisi cwynion yn unol â gofynion rheoliadol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd wedi derbyn cwyn ffurfiol. Fodd bynnag, gwelsom fod cleifion yn defnyddio tudalen Facebook y gwasanaeth i fynegi eu barn. Gwelsom hefyd fod y gwasanaeth wedi ymateb mewn modd amhriodol i gwynion cleifion drwy Facebook, nad oedd yn gwarchod cyfrinachedd cleifion nac yn cydymffurfio â'r weithdrefn gwyno.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid ymateb i gwynion yn briodol, yn unol â pholisi cwynion y gwasanaeth ac mewn modd sy'n gwarchod preifatrwydd a chyfrinachedd gwybodaeth am gleifion. Yn benodol, ni ddylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel dull o ymateb i gwynion.

Gwnaethom gynghori'r gwasanaeth i gofnodi unrhyw gwynion anffurfiol, llafar ac ysgrifenedig er mwyn helpu i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

Rheoli cofnodion (Safon 20)

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw mewn cwpwrdd ffeilio dan glo. Cynghorir y gwasanaeth i sicrhau bod hwn wedi ei gloi bob amser pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)

Roedd gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf yn unol â'r rheoliadau, fel rhan o'i gofrestrriad ag AGIC. Gwnaethom atgoffa'r rheolwr i sicrhau y caiff y dystysgrif ei diweddarau yn unol â gofynion rheoliadol.

Ni wnaethom edrych ar drefniadau ynglŷn â recriwtio ac arferion cyflogaeth yn y gwasanaeth, gan nad oes unrhyw aelodau staff eraill yn gweithio yno.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella o ran y trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliadau a safonau perthnasol.

Mae gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd a threfniadau llywodraethu cadarn, ac ymateb prydlon gan y darparwr cofrestredig wrth ddatrys problemau, yn arwyddion pwysig o allu darparwr i redeg ei wasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a medr digonol. Mae disgwyl, felly, i'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol gymryd camau ystyrllon i roi sylw i'r materion hyn, oherwydd y gallai methu â gwneud hynny olygu y bydd AGIC yn cymryd camau ar gyfer peidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid gweithredu systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a'r rheoliadau, fel modd o fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn ReThink the Ink yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

ReThink the Ink

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Rhaid gwneud gwelliannau i'r gofrestr o driniaethau i sicrhau y cedwir cofnodion triniaethau cynhwysfawr.	Rheoliad 23 (1) a 45 (2)			
7	Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 7			
7	Mae'n rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau. Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddarau at AGIC.	Rheoliad 6 (1) ac Atodlen 1			
7	Rhaid gweithredu system i ofyn am adborth gan gleifion yn rheolaidd.	Rheoliad 19 (2) (e) a 7 (e)			

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
8	Dylid adolygu'r rheolau lleol i adlewyrchu'r newidiadau yn yr offer a ddefnyddir.	Amodau cofrestru AGIC Rheoliad 15 (1) a (2) Safon 16			
8	Rhaid bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod offer y peiriant laser yn ddiogel, wedi'u cadw mewn cyflwr da, ac y gellir eu gwasanaethu yn rheolaidd, fel y bo'r angen.	Rheoliad 15 (1) a (2); Safon 16			
9	<i>Pryder a adnabwyd yn ystod yr arolygiad sy'n peri pryder ar unwaith:</i> Rhaid amddiffyn diogelwch a lles cleifion. Yn benodol, rhaid i gynghorydd diogelu rhag laserau gynnal asesiad ar y safle o ddiogelwch yr offer a'r amgylchedd yn y gwasanaeth. Rhaid anfon copi o'r adroddiad sy'n dilyn yr ymweliad i'r safle gan y	Rheoliad 26; 15 (1), (2) ac 19(1)(2); Safonau Gofynnol Cenedlaethol 12 ac 16	Rwyf wedi cysylltu â'm cynghorydd diogelu rhag laserau ac mae ymweliad safle wedi'i drefnu ar gyfer 5 Hydref. Yn sgil siarad â'm cynghorydd diogelu rhag laserau, fe'm cynghorodd, yn unol â'r rheoliadau, ynghylch llen y ffenestr. Mae hon bellach wedi'i gosod.	J Richardson J Richardson	Hydref 16 Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	cynghorydd diogelu rhag laserau at AGIC.				
9	<p><i>Pryder a adnabuwyd yn ystod yr arolygiad sy'n peri pryder ar unwaith:</i></p> <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig warchod cleifion ac unrhyw un arall rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â golau'r laser. Yn benodol, ni ddylid derbyn plant i'r ardal dan reolaeth pan fo'r laser yn cael ei ddefnyddio.</p>	Rheoliad 19 (1); Safonau Gofynnol Cenedlaethol 22	<p>Mae polisïau a gweithdrefnau a'r datganiad o ddiben wedi'u diweddarau gan hysbysu na ddylid caniatáu i blant ddod i mewn i'r ystafell driniaeth.</p> <p>Mae arwyddion yn cael eu harddangos bellach.</p>	J Richardson	Cwblhawyd
9	Dylai'r rheolwr cofrestredig gymryd camau i atal unrhyw un heb awdurdod rhag defnyddio'r peiriannau golau pwls dwys/laser, yn benodol drwy sicrhau bod yr allweddi cychwyn wedi'u storio'n ddiogel.	Rheoliad 45 (3) Safon 16, 22			
10	Rhaid i brosesau cadarn fod ar waith er mwyn diogelu plant ac oedolion agored i niwed a allai fod yn defnyddio'r gwasanaeth. Yn benodol, rhaid creu polisïau a gweithdrefnau clir o ran diogelu, cydsynio a thrin plant a dylid cynnal hyfforddiant diogelu.	Rheoliad 16 Safon 11			

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
10	Mae'n rhaid diweddarau'r polisi rheoli heintiau i gynnwys mwy o fanylion ynghylch y trefniadau glanhau.	Rheoliad 9 (n) Safon 13			
10	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod yr holl fesurau a rhagofalon priodol ar waith i amddiffyn iechyd a diogelwch cleifion yn y gwasanaeth hwn. Yn benodol, rhaid i ragofalon digonol fod ar waith rhag perygl tân, gan gynnwys asesiad risg cynhwysfawr o dân, offer diffodd tân addas ac arwyddion.	Rheoliad 15 (1), (2); 19(1); 26(5)(b) Safon 22			
Answadd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
11	Dylid adolygu'r holl bolisiâu a'r gweithdrefnau a rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol a safonau.	Rheoliad 9			
11	Rhaid creu polisi cwynion yn unol â gofynion rheoliadol.	Rheoliad 24			
11	Rhaid ymateb i gwynion yn briodol, yn unol â pholisi cwynion y gwasanaeth ac mewn modd sy'n	Rheoliad 24 Safon 23			

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gwarchod preifatrwydd a chyfrinachedd gwybodaeth am gleifion. Yn benodol, ni ddylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel dull o ymateb i gwynion.	Safon 9			
12	Rhaid gweithredu systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r safonau a'r rheoliadau, fel modd o fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.	Rheoliad 19 a 9			

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):.....

Teitl:

Dyddiad: